No.

# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod hyrbid a gynhaliwyd ar 16 Ionawr, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorydd I.A.N. Perry (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, J. Protheroe a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, C.P. Franks, H.C. Hamilton, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

696 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

697 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorwyr V.P. Driscoll a E. Penn.

698 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2023 fel cofnod cywir.

699 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

700 STRATEGAETH GOED CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

Gwnaeth Arweinydd Tîm y Gwasanaethau Cefn Gwlad ar y cyd â Rheolwr y Gwasanaethau Cymdogaeth gyflwyno'r cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023, fel y nodwyd yn yr agendâu.

Diben yr adroddiad oedd galluogi ystyried drafft cyntaf Strategaeth Coed 024/39 Cyngor Bro Morgannwg cyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dudalen 68 yr adroddiad a dynnodd sylw at y ffaith bod tua 40% o goed Bro Morgannwg naill ai mewn cyflwr gwael neu ddifrifol, a gofynnodd y Cadeirydd beth oedd statws ymgysylltu â pherchnogion tir. Wrth ymateb, dywedodd Arweinydd Tîm y Gwasanaethau Cefn Gwlad fod y Cyngor wedi gwneud llawer iawn o waith gyda chymunedau lleol a pherchnogion tir lleol o ran gwrychoedd a gwella cysylltedd natur ar draws y Fro ehangach. Cyfeiriodd yr Arweinydd Tîm at y prosiect Adfer y Ddawan a fyddai'n creu cysylltiadau bioamrywiaeth helaeth â pherchnogion tir preifat a ffermwyr. Yn ogystal, dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y Cyngor wedi plannu 6,000 o goed ac roedd disgwyl i 4,000 o goed eraill gael eu plannu dros y mis nesaf. Yn gyffredinol, byddai'r prosiect Adfer y Ddawan yn cynnwys plannu dros 40,000 o goed a oedd yn gofyn i'r Cyngor weithio'n gyfan gwbl gyda pherchnogion tir a ffermwyr ac roedd ymateb da iawn wedi’i gael. Ar ben hynny, roedd y Cyngor yn gweithio'n dda gyda chymunedau lleol yn gyffredinol trwy Barciau Gwledig a Thref ac roedd llawer o waith ymgysylltu yn gadarnhaol iawn.

Dywedodd y Cynghorydd Iannucci y nodwyd yn yr adroddiad mai Derwen Goesynnog oedd y rhywogaethau gorau o goed o safbwynt llifogydd. Felly, gofynnodd y Cynghorydd Iannucci a oedd dadansoddiad o fanteision pob rhywogaeth o goed ac a fyddai hynny'n gweithio ochr yn ochr â chynigion yn ymwneud â phlannu un math mawr o goeden yn lle dwy goeden fach. Ail gwestiwn y Cynghorydd Iannucci oedd beth oedd y Cyngor yn ei wneud i annog pobl i blannu coed ar eu tir eu hunain. Wrth ymateb, dywedodd yr Arweinydd Tîm mai mantais coeden fwy oedd ei bod yn fwy cadarn ac y byddai'n amsugno mwy o ddŵr. Roedd pob rhywogaeth o goed yn cynnig math ychydig yn wahanol o ddefnydd, ond gallai coed a blannwyd ar orlifdir amsugno dŵr. O ran annog pobl i blannu eu coed eu hunain, roedd Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar gynigion ynghylch cynllun taliadau amaethyddol newydd a fyddai, gobeithio, yn annog perchnogion tir i blannu mwy o goed ac y gallai'r Cyngor fod yn rhan o'r broses gynghori ar ei gyfer.

Gofynnodd y Cynghorydd Protheroe am y broses ymgysylltu gyda ffermwyr a oedd â phryderon am glefyd coed ynn a chynlluniau hirdymor y Cyngor o ystyried y newidiadau i batrymau tywydd a’r newid yn yr hinsawdd. Wrth ymateb, dywedodd yr Arweinydd Tîm, o ran cynorthwyo ffermwyr a pherchnogion tir, y byddai'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth a chymorth pe bai yn nalgylch y Cyngor ar gyfer y cynllun grant presennol. Byddai'n ddefnyddiol felly i ffermwyr a pherchnogion tir gysylltu'n uniongyrchol â'r Cyngor ond gallai Coed Cadw hefyd roi cymorth. Un o'r darnau allweddol o ddeddfwriaeth fyddai mewn perthynas â'r Cynllun Taliadau Amaethyddol a fyddai'n annog perchnogion tir a ffermwyr i blannu mwy o goed. Dywedodd yr Arweinydd Tîm fod yr adroddiad yn cydnabod yr heriau o ganlyniad i’r newid yn yr hinsawdd, ac felly, roedd y Cyngor yn bwriadu plannu mwy o rywogaethau brodorol yn yr amgylchedd naturiol fel coetiroedd a gwrychoedd. O ran ardaloedd trefol, byddai angen i'r Cyngor ystyried rhywogaethau gwahanol a allai wrthsefyll gwres yn well a chynnig atebion gwell ar gyfer llifogydd, amddiffyn rhag yr haul, ac ati.

Gofynnodd y Cynghorydd Hooper gyfres o gwestiynau, gyda'r cyntaf yn ymwneud â'r cysylltiadau rhwng amddifadedd a gorchudd coed ac a oedd gwybodaeth am

hynny ar gael ar sail ward leol.  Roedd yr ail ymholiad yn ymwneud â gwaredu coed â rhoi coeden newydd yn eu lle ond nid o reidrwydd yn yr un lleoliad. Gofynnodd y Cynghorydd Hooper a ddylai'r Cyngor felly fod yn ystyried cynlluniau draenio eraill a fyddai'n disodli'r coed.  Yn ogystal, gofynnodd y Cynghorydd Hooper a oedd gan y Cyngor strategaeth pren.  Ar gyfer ei bwynt olaf, dywedodd y Cynghorydd Hooper, er bod y Cyngor yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol difrifol, ei bod yn bwysig blaenoriaethu'r Strategaeth Coed, ac annog pobl i ymgysylltu â hi o ystyried ei phwysigrwydd wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Wrth ymateb, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymdogaeth, o ran gorchudd coed ac amddifadedd, nad oedd digon o ddata ym mhob ardal ar hyn o bryd, yn enwedig ar gyfer y Wardiau â'r swm mwyaf o amddifadedd.  O ran gwaredu coed, roedd yn bwysig cydnabod y byddai'r Cyngor yn plannu dwy, tair neu weithiau hyd at saith coeden o fewn ardal parc gwledig.  Roedd y Cyngor wedi cydnabod bod systemau draenio trefol yn bwysig a lle y gallai, byddai'r Cyngor yn plannu coed mewn lleoliadau priodol.   O ran Strategaeth Pren, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan y Cyngor gontractwyr trydydd parti a oedd yn defnyddio eu melinau pren eu hunain ac nad oedd cysylltiad arall rhwng y Cyngor a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Gyda chaniatâd i siarad, ychwanegodd y Cynghorydd Wilson, yr Aelod Cabinet dros Gymdogaeth a Gwasanaethau Adeiladau fod y Cyngor wedi dyrannu cyllid ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac mai'r Strategaeth Coed fyddai'r cyntaf o'i math ar gyfer Bro Morgannwg.  Roedd y Cyngor yn wynebu rhai blaenoriaethau cystadleuol sylweddol, ac roedd y newid yn yr hinsawdd yn un o'r blaenoriaethau hynny.  Roedd y Strategaeth Coed yn hynod bwysig gan fod coed yn hanfodol i'r amgylchedd ac yn enwedig mewn perthynas â dal allyriadau carbon. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet bwysigrwydd gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys perchenogion tir a thrigolion, gyda chyngor ar blannu coed ar gael drwy'r Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper yn ôl at y pwynt am wybodaeth lefel ward a dywedodd fod hynny'n hynod bwysig a oedd hefyd yn gysylltiedig â mynd i'r afael ag amddifadedd.  Pwysleisiodd hefyd fod cynlluniau eraill ar gael i'r Cyngor i ddal carbon heblaw plannu coed, a fyddai hefyd yn cynorthwyo gyda llifogydd.

Cododd y Cynghorydd Champion ymholiad ynglŷn â choed yn cael eu brigdorri yn ardal Westgate, Y Bont-faen bob blwyddyn.  Cyfeiriodd y Cynghorydd Champion hefyd at goeden a oedd wedi'i gwaredu a gofynnodd a fyddai'r goeden yn cael ei disodli ac, mewn achosion o'r fath, a oedd y Cyngor yn cydgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned.  Dywedodd y Cynghorydd Champion fod yr adroddiad yn cyfeirio at blannu 1500 o goed a gofynnodd a oedd dibyniaeth ar blannu preifat gydag elfen o goed newydd yn cael eu "clymu".  Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymdogaeth fod gwaith brigdorri coed yn cael ei wneud mewn cylch fel arfer bob 5 i 7 mlynedd.  Ar ôl dechrau, ni ellid atal gwaith brigdorri gan ei fod yn ffordd o gynnal a chadw coed.  O ran y goeden a oedd wedi cael ei gwaredu, cytunwyd i'r ymholiad hwnnw gael ei ystyried gan y swyddogion er mwyn ymateb yn uniongyrchol i'r Cynghorydd Champion.  Cadarnhaodd y Swyddog na fyddai'r Cyngor, o ran gwaredu coed, yn mynd o gwmpas yn systematig yn siarad â Chynghorau Tref neu Gymuned ond y byddai'n trafod gyda grwpiau cymunedol.

Gofynnodd y Cynghorydd Ernest am gyfanswm cost coed i'r Cyngor gan awgrymu bod pob coeden yn costio rhwng 40c a 60c y flwyddyn i'r Cyngor. Yn ogystal, gofynnodd y Cynghorydd Ernest am y gyllideb a roddwyd i fynd i'r afael â chlefyd coed ynn. Gofynnodd y Cynghorydd hefyd a oedd arolwg o goed yn y Fro wedi'i gynnal. Wrth ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd mai rhan allweddol o'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd fyddai cynaliadwyedd a sut roedd hynny'n gysylltiedig â gwaith plannu coed presennol a gwaith plannu coed arfaethedig. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn credu y byddai'r Strategaeth yn nodi diffygion yn ôl ward. O ran cost plannu coed, cydnabuwyd bod plannu coed llai yn rhatach gan y byddent yn costio llai i'w prynu a'u plannu yn y rhan fwyaf o achosion. Y sefyllfa ddelfrydol fyddai plannu'r goeden fwyaf posibl a oedd yn addas ar gyfer y lleoliad ond nid oedd hynny bob amser yn bosibl, felly roedd angen cyfaddawd. O ran clefyd coed ynn, roedd cronfa wrth gefn benodol wedi'i chreu i fynd i'r afael â'r mater ac roedd arian a oedd ar gael drwy Brosiect Sero wedi'i ychwanegu at hynny. Roedd yn deg dweud mai ar dir preifat oedd y gyfran fwyaf o'r coed yr effeithiwyd arnynt, felly perchennog y tir a oedd yn gyfrifol, ond byddai'r Cyngor yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd gan Lywodraeth Cymru gyllideb ailblannu coed fel y gallai ffermwyr a pherchnogion tir wneud cais am gymorth ar gyfer cynlluniau disodli.

Cododd y Cynghorydd Wiliam nifer o bwyntiau, a'r cyntaf oedd bod cyfyngiadau cyllidebol yn rhwystro gwaith y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Wiliam ei bod yn amlwg mewn rhai ardaloedd bod angen torri'r coed, ond roedd angen i'r coed ddirywio ymhellach cyn y gallai'r Cyngor gymryd unrhyw gamau. Roedd hynny'n ymddangos yn rhywbeth yr oedd angen tynnu sylw ato. Dywedodd y Cynghorydd Wiliam ei fod yn erbyn plannu coed mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, mewn mannau agored eang fel Parc Porthceri. Yn ogystal, gwnaeth y Cynghorydd Wiliam sylw o ran coed yn gwthio palmentydd i fyny gan achosi rhwystrau i bobl a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn a phramiau. Roedd ei bwynt olaf mewn perthynas â sut y penderfynwyd ar ble y byddai coed yn cael eu plannu a sut y gwnaed y penderfyniad hwnnw ac a fyddai ymgynghori â thrigolion a grwpiau cymunedol. Wrth ymateb, dywedodd yr Arweinydd Tîm y gallai trigolion roi gwybod am faterion yn ymwneud ag unrhyw goed drwy gysylltu ag UnFro gyda'r mater hwnnw wedyn yn cael ei gyfeirio at Swyddogion Coed y Cyngor. O ran pwy a fyddai'n penderfynu a ddylid torri coeden, byddai hynny'n dibynnu ar risg a maint y goeden ac a oedd y goeden wedi'i heintio ac a oedd yn cynnwys unrhyw strwythurau a oedd yn methu. O ran codi palmentydd, byddai hyn yn cael ei adrodd i'r Tîm Priffyrdd a fyddai'n ystyried sut y gellid unioni'r materion fel ail-alinio'r droedffordd. Eglurodd y Swyddog fod pedwar cam mewn perthynas â thrin clefyd coed ynn - 1, 2, 3 a 4. Ni fyddai coeden â chlefyd coed ynn o reidrwydd yn cael ei gwaredu pe bai yng ngham 1 neu 2 oherwydd efallai na fyddai'n symud i gam 3 neu 4. Byddai'r rhan fwyaf o goed ynn yn cael eu monitro i asesu a fyddent yn symud i gam 3 neu 4 ac yna byddai'n cael ei benderfynu a fyddai modd rheoli'r coed neu eu gwaredu'n ddiogel.

Yna cododd y Cynghorydd Perry nifer o bwyntiau, y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Byddai gan rai o'r Cynghorau Cymuned ledled y Fro ddiddordeb mewn gwybod a allai'r Cyngor weithredu Gwasanaethau Ail-lunio drwy weithio

gyda'r Cynghorau Cymuned hynny mewn perthynas â chynnal a phlannu coed newydd.

- Yn ogystal â phlannu coed, roedd angen i'r Cyngor sicrhau bod y coed a blannwyd eisoes yn ffynnu yn enwedig y coed ifanc hynny yn ystod y tair blynedd gyntaf.
- Byddai'n ddiddorol gwybod a oedd gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar unwaith a allai gynorthwyo coed i dyfu'n llwyddiannus.
- Roedd hefyd yn ddiddorol gwybod ble y gellid plannu coed newydd o ystyried bod nifer o goed aeddfed wedi cael eu gwaredu yn Ward y Cynghorydd Perry a oedd yn golygu nad oedd gorchudd coed.
- Roedd angen i'r Cyngor sicrhau bod coed newydd a blannwyd yn cael eu cynnal a'u cadw a'u dyfrio'n dda am y tair blynedd gyntaf a bod cymorth ar gael gan grwpiau cymunedol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at bwynt blaenorol ynghylch gwybodaeth benodol i Ward a gofynnodd sut y byddai'r Strategaeth Coed yn delio â datblygwyr a oedd wedi ymrwymo i blannu nifer benodol o goed ond a fethodd â chyflawni eu hamcanion.  Wrth ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod y Strategaeth Coed yn canolbwyntio'n bennaf ar dir y Cyngor a thir yr oedd yn ei gynnal a'i gadw.  O ran ceisiadau cynllunio a thoriadau a'r methiant i gyflawni amodau'n llawn, roedd pwerau yn y Ddeddf Cynllunio i ddelio â'r toriadau hynny.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD – Y DYLID hysbysu'r Cabinet o sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio. Y sylwadau yw:

- Bod y Strategaeth Goed yn cael ei chroesawu;
- Ystyried ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned a allai gynorthwyo gyda chynnal a phlannu coed;
- Cydnabod bod problemau capasiti yn wynebu'r Cyngor, ond byddai'n ddefnyddiol i Gynghorwyr pe bai gwybodaeth am goed yn cael ei rhannu'n wardiau unigol gyda'r ddealltwriaeth y byddai arolwg o'r fath yn gymhleth;
- Bod gwybodaeth yn y strategaeth ynghylch pryd y byddai'r Cyngor yn cymryd camau i dynnu neu drin coed yn glir, ond byddai'n ddefnyddiol pe gellid gwneud mwy i sicrhau bod trigolion yn ymwybodol o hynny;
- Bod diweddariad ar y Strategaeth Goed yn cael ei ychwanegu at Raglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor Craffu ar gyfer 2024/25.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Ystyried cynnwys yr adroddiad a hysbysu'r Cabinet o sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.

701 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (PW) –

Roedd yr adroddiad ac Atodiad A yn manylu ar ystod eang o weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni yn erbyn ymrwymiadau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd ac i fwrw ymlaen â Phrosiect

Sero. Roedd y cynnydd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2023 yn cynnwys: gwaith parhaus ar lwybrau Teithio Llesol newydd a thai'r Cyngor â sgôr A; cyllid a sicrhawyd i ôl-osod dyfeisiau ffotofoltäig, goleuadau LED a mesurau effeithlonrwydd ynni eraill yn rhai o'r Canolfannau Hamdden; Llwybr Bwyd y Fro 2023 a gynhaliwyd yn yr haf ac a oedd yn llwyddiannus; a chyllid a sicrhawyd ar gyfer swyddi newydd.

Roedd sgoriau COG (coch, oren, gwyrdd) ar gyfer cynnydd yn ystod y cyfnod hwn wedi'u cyflwyno yn Atodiad A gan fanylu ar gynnydd yn erbyn yr 80 cam sylfaenol o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion allyriadau carbon 2022-2023 Cyngor Bro Morgannwg.

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r cyllid a oedd yn gysylltiedig â Phrosiect Sero a'r defnydd o gronfa wrth gefn Prosiect Sero yn ogystal â diweddariadau ar y dull o reoli rhaglenni.

Gwnaeth y Cynghorydd Hooper sylw ar y diweddariadau a roddwyd yn yr adroddiad a dywedodd y byddai'n well pe bai'r adroddiad yn cynnwys cynnydd mewn perthynas â chamau gweithredu diriaethol. Yn ogystal, nododd y Cynghorydd Hooper mai'r prif rwystrau a amlygwyd yn yr adroddiad oedd diffyg adnoddau neu adnoddau nad oeddent ar gael yn bennaf oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Dywedodd y Cynghorydd Hooper, gan fod Prosiect Sero yn brif flaenoriaeth, fod angen dyrannu mwy o arian er mwyn cyflawni canlyniadau. Yn olaf, dywedodd y Cynghorydd Hooper, fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fod y Pwyllgor hwnnw wedi trafod y posibilrwydd o ddosbarthu Prosiect Sero fel prosiect â risg drychinebus, ond ni adlewyrchwyd hynny yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu. Wrth ymateb, dywedodd y Cynghorydd Wilson (Aelod Cabinet) fod Prosiect Sero yn elfen allweddol o Gynllun Corfforaethol y Cyngor ac er bod heriau cydnabuwyd ef yn faes hanfodol. Roedd deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei chyflwyno a fyddai'n cynorthwyo Prosiect Sero, er enghraifft drwy wneud cynhyrchwyr yn gyfrifol am faint o ddeunydd pecynnu a oedd yn cael ei ddefnyddio ganddynt a sut yr oedd y deunydd pecynnu hwnnw'n cael ei brosesu. Roedd hefyd yn bwysig i ddefnyddwyr gwestiynu sut roedd cynhyrchion yn cael eu pecynnu ac roedd yn bwysig i drigolion a Chynghorwyr ddweud bod y deunydd pecynnu'n annerbyniol. Roedd y gyllideb yn heriol tu hwnt, ond roedd cyfrifoldeb personol ar bawb i ailgylchu mwy ac i gofio pa eitemau a oedd yn cael eu rhoi mewn bagiau du. Ymhellach i'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Hooper, dywedodd y Rheolwr Rhaglen ar gyfer Prosiect Sero, o ran cydbwysedd y camau gweithredu diriaethol, fod amrywiaeth o wahanol fathau o weithgareddau wedi'u hamlinellu yn Atodiad A a bod rhai yn ddiriaethol ac â ffocws gyda mwy o fanylion, tra nad oedd rhai camau gweithredu eraill yn cynnwys yr un lefel o fanylder. Dyna oedd natur Prosiect Sero, ond byddai sylwadau'r Cynghorydd Hooper yn cael eu hystyried ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

Wrth ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Champion ynghylch y cyllid tair blynedd a ddyrannwyd i'r prosiect Adfer y Ddawan a'r defnydd o foeleri biomas, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod y prosiect Adfer y Ddawan wedi derbyn arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, ond byddai'n

rhaid anfon yr union ffigur at yr Aelodau drwy e-bost. Byddai'r swm blynyddol o £25k a nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r prif gyllid, a byddai'r rhan fwyaf o'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gyflawni'r prosiect ac adfer cynefinoedd a oedd yn cynnwys plannu coed. O ran boeleri, roedd rhai problemau gyda'r rhain yn cael eu disodli gan bympiau gwres ffynhonnell aer neu bympiau ffynhonnell ddaear, yn enwedig o ran adeiladau mwy fel canolfannau hamdden. Fel arfer, roedd angen cyfuniad o'r ddau ac weithiau roedd yn rhaid gweithredu datrysiad llenwydd bwlch.

Dywedodd y Cynghorydd Protheroe fod llawer o weithgareddau yn cael eu cynnal i gyfrannu at Brosiect Sero a gofynnodd a oedd unrhyw ffordd y gallai'r Cyngor fonitro effaith yr holl gamau gweithredu hynny gyda'i gilydd. Wrth ymateb, dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod mwy o waith i'w wneud o ran cysylltu'r holl gamau gweithredu a sut roedd pob cam gweithredu’n cyfrannu at amcanion cyffredinol Prosiect Sero. O ran lleihau carbon roedd hynny'n rhan fawr o'r amcanion ond roedd meysydd eraill yr oedd angen i'r Cyngor weithio arnynt. Felly, roedd y Cyngor yn ceisio lleihau'r defnydd o ynni yn ei adeiladau a'i ysgolion ac roedd yn rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried ffyrdd o leihau swm y gwastraff a swm y dŵr a oedd yn cael ei ddefnyddio. Roedd yn rhaid i sut roedd pobl yn teithio ac yn cymudo newid hefyd, ac roedd angen i'r Cyngor edrych yn fanwl ar ei Strategaeth Caffael, sef o ble y daeth mwyafrif yr allyriadau carbon. Fodd bynnag, ni allai'r Cyngor atal prynu gwasanaethau a nwyddau, felly roedd angen i'r Cyngor weithredu dull pwyllog ac ystyried yr holl rwystrau a heriau a oedd yn wynebu Prosiect Sero. Roedd elfen fawr o'r rhwystrau yn gysylltiedig â newid ymddygiad, er enghraifft, sut i argyhoeddi pobl a staff y Cyngor i deithio mewn ffyrdd mwy eco-gyfeillgar. Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen hefyd at Gynllun Rheoli Carbon y Cyngor a oedd yn offeryn arall y gellid ei ddefnyddio i olrhain a monitro cynnydd.

Yna cododd y Cynghorydd Perry nifer o bwyntiau, y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd angen cynllunio a chyfathrebu gwell rhwng Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Cyngor.
- Roedd angen ystyried cyfleusterau cymunedol yn fwy yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig a fyddai'n golygu na fyddai'n rhaid i'r trigolion hynny deithio mor bell i gyrraedd amwynderau.
- Roedd angen i'r Cyngor roi blaenoriaeth uwch i'r angen i leihau nifer y bobl a oedd yn berchen ar geir ac roedd angen ystyried Teithio Llesol yn fwy.
- O ran datblygiadau tai newydd, roedd angen ystyried yn well fathau a lleoliadau tai a oedd angen canolbwyntio’n fwy ar Deithio Llesol a ffyrdd o annog pobl i beidio â defnyddio ceir.
- Roedd angen i'r Cyngor fod â gwell camau gweithredu diriaethol.
- Roedd angen mwy o gyfleusterau wedi’u rhannu ac roedd angen i'r Cyngor ystyried defnyddio clybiau ceir fel ffordd o leihau nifer y bobl a oedd yn berchen ar geir.
- Roedd angen i'r Cyngor fynd ymhellach gyda lleihau gwastraff y cartref er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw beth yn cael ei anfon at y llosgwyr.
- Roedd angen mwy o frys ar y Cyngor i sicrhau bod Bro Morgannwg yn canolbwyntio’n fwy ar gynaliadwyedd.

Wrth ymateb i rai o'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Perry, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y byddai'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn berthnasol i Gynllun Datblygu Lleol y Cyngor a oedd â chysylltiad agos â Phrosiect Sero. O ran datblygiadau tai preifat, byddai'r Cyngor yn sicrhau, hyd eithaf ei allu, y byddai'r materion amgylcheddol a godwyd yn cael eu hystyried ond byddai'n rhaid i'r Cyngor ystyried tystiolaeth a roddwyd a ddaeth i'r casgliad na ellid cyflawni rhai agweddau. Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at yr heriau ariannol sylweddol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu, ond roedd heriau hefyd o ran denu staff gyda'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni prosiectau a oedd wedi gohirio cynnydd mewn rhai meysydd. Roedd hynny'n golygu y byddai angen ymgynghorwyr yn rheolaidd, ac roedd eu gwasanaethau'n costio mwy. Felly, roedd rhai o'r risgiau a'r rhwystrau a oedd yn gysylltiedig â Phrosiect Sero gan gynnwys y fframwaith deddfwriaethol a allai effeithio ar waith y Cyngor o gyflawni ei amcanion, y tu hwnt i reolaeth y Cyngor yn uniongyrchol.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad ac Atodiad A mewn perthynas â'r heriau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd.

(2) NODI'r sgôr Coch, Ambr a Gwyrdd (RAG) o gynnydd o fis Ebrill 2023 i fis Medi 2023 yn Atodiad A i'r adroddiad.

(3) BOD allyriadau carbon y Cyngor ar gyfer 2022-2023 yn cael eu nodi.

(4) NODI'r cyllid sydd ar gael mewn cronfeydd wrth gefn a'r prosiectau y dyfarnwyd arian iddynt hyd yma.

(5) BOD y Pwyllgor yn cyfeirio'r adroddiad ac unrhyw sylwadau i'r Cabinet i'w hystyried ochr yn ochr â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a roddodd ystyriaeth i'r adroddiad hwn ar 17 Ionawr, 2024. Dyma sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio:

- Y byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o wybodaeth am sut mae prosiectau a gweithgareddau unigol yn gwneud gwahaniaeth diriaethol o ran y targedau y mae'r Cyngor yn ceisio eu cyflawni.

(6) BOD y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet fod yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau etholedig, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1-4) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(5) Galluogi'r Cabinet i ystyried sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio fel rhan o'i ystyriaeth o gynnydd mewn cyflawni'r Cynllun Her Newid Hinsawdd.

(6) Diweddaru'r holl Aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill ar y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.

702 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI 3YDD CHWARTER 2023/24 AC ATODLEN DIWEDDARU RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR 2023/24 (CAC) –

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad a diben yr adroddiad oedd adrodd ar y cynnydd yn sgil yr argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ynghyd ag unrhyw lithriad ar gyfer 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau am gynnydd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol a'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/24:

- Tracio Argymhellion Chwarter 2, mis Gorffennaf i fis Medi 2023 (Atodiad A yr adroddiad);
- Tracio Argymhellion Chwarter 3, mis Hydref i fis Rhagfyr 2023 (Atodiad B yr adroddiad); ac
- Amserlen y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/34 (Atodiad C yr adroddiad.

ARGYMHELLWYD –

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad, yn amodol ar newid statws argymhellion y Pwyllgor a wnaed ar 12 Rhagfyr, 2023 o 'Ar Barhaus' i 'Wedi'i Gwblhau'.

(2) CYMERADWYO Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddaru'r Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.